

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
19 o Dachwedd, 2013**

Presennol: Linda Morris (Cadeirydd), Olwen Jones (is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, John Morris, W D Williams

1. Cydymdeimlwyd gyda Linda Morris a John Morris, ill dau wedi colli perthnasau yn ddiweddar. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwyn Roberts ac Alan Jones Evans, Cynghorydd Gwynedd.
2. Nid oedd datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan y cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 16eg o Fedi 2013
5. **Materion yn codi o'r Cofnodion:**

Y fynwent: Sicrhodd y Cadeirydd fod gwrych y fynwent yn cael ei thorri cyn i'r tywydd droi.

Cafodd y Clerc gyngor gan Parc Cenedlaethol Eryri parthed y coed pinwydd Douglas yn y fynwent a derbyniodd y Cynghorydd Sir gyngor tebyg iawn, sef

- i. Nid ydyw'r eiddew yn tagu'r coed; yn wir, mae'r eiddew yn cynnal bywyd gwyllt, gan gynnwys ystlumod.
- ii. Mae angen teneuo'r coed i sicrhau bod y gweddill yn tyfu'n gryf. Nid oes angen caniatâd y Parc na thrwydded i deneuo'r coed yn y fynwent.

CYTUNWYD i ofyn i arbenigwr coed i adnabod a marcio'r rhai y dylid eu teneuo. Cytunwyd wedyn i ofyn i ddau berson lleol i brisio gwerth y coed ar eu traed ac i roi dyfynbris am eu teneuo a'u clirio. (Dei John Watcyn Jones, Iau Jones Blaencwm)

Gweithredu: Clerc

Meini: Derbyniwyd cadarnhad bod y meini ar ochr y ffordd wedi eu gosod ar dir preifat.

6. Gohebiaeth :

a. Llywodraeth Cymru:

Derbyniwyd gwybodaeth am grant at frechu moch daear a chyflwyno system tabl prasio ar gyfer iawndal Dicáu mewn gwartheg

Derbyniwyd e-newyddlen am Gyfoeth Naturiol Cymru a neges gan y Gweinidog

Derbyniwyd gwybodaeth ymlaen llaw am ymgynghoriad ar *Cymunedau,*

Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Nodwyd gwahoddiad i ymgeisio am grant Rheoli Adnoddau Naturiol

b. Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd llythyr y Prif Weithredwr parthed trethi ail gartrefi a chymeradwywyd ymateb cefnogol yn yr ymgynghoriad.

Derbyniwyd newyddlen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Economaidd Gwynedd.

c. Parc Cenedlaethol Eryri

Ceisiadau cefn meirch am gynlluniau trydan dŵr, NP5/70/137 a NP5/70/138.

CYMERADWYO mewn egwyddor ond mae angen tynnu sylw'r Adran Gynllunio fod y cymoedd wedi eu henwi ynn anghywir ar y mapiau a anfonwyd atom. **Gweithredu:**

Clerc

d. Un Llais Cymru

Derbyniwyd gwybodaeth am y Rhaglen Hyfforddiant gyda chysiau newydd.

Derbyniwyd gwybodaeth am astudiaethau achos yr Ombwdsman.

Derbyniwyd gwybodaeth am ymdrechion Un Llais Cymru i wella'r gwasanaeth ffôn yng nghefn gwlad.

Derbyniwyd model diweddaraf o Reoliadau Ariannol a chytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Clerc**

Derbyniwyd gwybodaeth am nodi can mlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

d. Heddlu

Derbyniwyd gwybodaeth am lansio ymgyrch yn erbyn ffonau symudol wrth yrru.

e. Eraill

Ystyriwyd cais gan Eisteddfod yr Urdd am wirfoddolwyr.

Derbyniwyd diolch am y cyfraniad at y Gofeb yn Fflandrys.

7. Materion ariannol:

Cytunwyd i dalu Anfoneb y Cyfrifydd John Roberts (£40)

Ystyriwyd y sefyllfa ariannol bresennol. Lluniwyd Cyllideb 2013-14 a chytunwyd ar lefel y Praesept (£2,142)

8. **Partneriaeth Penllyn** – derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae gwahoddiad yn y wasg leol i adeiladwyr lleol dendro am y gwaith yng Nghanolfan Henblas. Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi arwyddo prydles Canolfan Henblas. Mae Mari Williams wedi cychwyn ar y gwaith o hybu a marchnata. Mae Lindsey Ellis Edwards yn parhau i ymgeisio am grantiau. Cafwyd hyfforddiant i'r Cyfarwyddwyr yn

ddiweddar. Cafodd yr Ysgrifennydd a'r Cydlynnydd gyfle i annerch Fforwm Ardal
Cynghorwyr Meirionnydd yn ddiweddar.

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad. Cytunwyd i ofyn i Gyngor
Gwynedd am oddefiad parthed materion yn ymwneud a'r Neuadd a Chymdeithas Glyn a
Rhos. **Gweithredu: Clerc**

Amser gorffen: 9.10

Llanygerw - Cyllideb 2014-15 Cytunwyd 19/11/13

| | |
|---|---------------|
| Cyflog (o dan ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf) | 500.00 |
| Costau Clerc (stampiau etc) | 200.00 |
| Cyfraniadau | 700.00 |
| Yswiriant | 200.00 |
| Ffioedd archwilio | 130.00 |
| Aelodaeth P Penllyn a Un Llais | 180.00 |
| Hyfforddiant | 50.00 |
| Etholiad | |
| Amgylchiad arbennig | 50.00 |
| | <hr/> |
| Amcangyfrif Cyfanswm Gwariant | £2,010 |
| Mewn llaw diwedd y flwyddyn, <u>tua</u> | £1,200 |
| Derbyn praesept | £2,142 |
| Wrth gefn, <u>tua</u> | £ 1,300.00 |

CYTUNWYD i godi'r praesept o 5% i osgoi codiadau sylweddol yn y dyfodol ac i adeiladu arian wrth gefn

Incwm Praesept llynedd oedd £2040

| | |
|---------------|-----------|
| Ychwanegu 2% | £2,080.80 |
| Ychwanegu 4% | £2,121.60 |
| Ychwanegu 5% | £2,142.00 |
| Ychwanegu 10% | £2,240.00 |

Torri gwair heb ei gynnwys - risg na fydd ad-daliad